



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Gyflawn 12 Ebrill 2008
Papur 1: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Adroddiad y Prif Arholwr

Safon Aelodaeth Gyflawn

Mae aelodaeth gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Nifer yr ymgeiswyr: 12
Llwyddo: 0

Gosodwyd dau ddarn o ryw 300 o eiriau yr un a oedd yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol. Trafodai'r naill ddarn agwedd ar hanes cymdeithasol yr wystrysen ac roedd y llall yn trafod amodau cynnig am swydd ym maes addysg.

Roedd safon yr ymgeiswyr yn siomedig o gofio mai ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn oedd y rhain; nid yw'n syndod o gwbl i'r arholwyr fethu â chytuno bod yr un ymgeisydd wedi llwyddo'n ddiamod.

Y darn cyntaf, y darn llai ffurfiol o ran cywair, oedd yn peri'r anawsterau mwyaf i'r ymgeiswyr.

Dyma rai o'r meini tramgwydd:

wide-eyed – 'diniwed' oedd dewis y mwyafrif, er bod 'llygadrwth' neu 'syfrdan' efallai'n mynegi'r elfen o ryfeddu a synnu yn fwy grymus
This was definitely a leap into the unknown – cafwyd sawl cynnig da ('dyma naid i'r tywyllwch heb os', 'cam i'r tywyllwch', 'naid i'r gwyll') ac eraill a oedd yn llai llwyddiannus ('sefyllfa gwbl ddieithr', 'cam byrbwyll')
My team mates hung back in horror – 'Ciliodd fy nghydchwaraewyr mewn braw' yn iawn; ('Arsylwodd...' ac 'Edrychodd...' heb gyfleu grym y gwreiddiol)
I loved it – 'Roeddwn i wedi gwirioni', 'Roeddwn wrth fy modd', 'Roeddwn ar ben fy nigon' yn dda. Aflwyddiannus oedd 'Dwlais arni' (mwynhau her yr achlysur y mae'r crwt, yn hytrach na'r wystrysen)

salad days – Rhywbeth fel ‘oes aur’ oedd yn taro orau. Nid yw ‘glaslencyndod yr wystrysen’ yn taro o gwbl ac annerbyniol oedd ‘dyddiau salad’ a ‘dyddiau glas’.

fall from grace – ‘cwymp oddi wrth ras’ nid ‘cwymp o ras’

joined-up thinking - Achosodd yr olyniad hwn broblemau i’r mwyafrif (pethau fel ‘Cafwyd diffyg syfrdanol o feddwl unedig.’) Byddai ‘synnwyr cyffredin’ ‘diffyg cynllunio’ neu rywbeth arall a oedd yn cyfleu grym y gwreiddiol yn naturiol wedi bod yn ddewis derbyniol.

Oysters were quickly taken off the menu – ‘Buan y cymerwyd wystrys oddi ar y fwydlen’ – dyna’r drefn sy’n cyfleu’r pwyslais orau. Ac nid yw ‘o’r fwydlen’ yn dderbyniol ar y lefel hon.

Weithiau roedd amryw ymgeiswyr wedi ychwanegu rhywfaint o destun, ac eraill wedi hepgor mân elfennau.

Cafwyd ‘chwarter’ am ‘quart’ droeon, yn lle ‘chwart’.

Ni ddylid dewis y fannod gydag enw afon.

Cafwyd enghreifftiau o gyfieithu arbennig o dda:

I was desperate to show no fear – ‘roeddwn i ar dân...’ a ‘roeddwn yn daer...’

The killer blow was pollution – ‘Llygredd oedd yr ergyd farwol’ – gwaith cryno ac effeithiol.

Yn yr ail ddarn, cafwyd enghreifftiau lle’r oedd y cyfieithu braidd yn drwsgl: byddai wedi bod yn well rhannu brawddeg yn ddwy, ac roedd gormod o ailadrodd ar adegau.

Rhaid dewis yr arddodiad cywir. Dyma rai o’r gwallau a gafwyd:

‘dod ... mewn cysylltiad...’, ‘i gysylltiad ... gyda...’, ‘mae’n ofynnol ar ysgolion...’, ‘i gychwyn eu swydd..’.

Mae angen i sawl ymgeisydd roi sylw dyladwy i atalnodi a’r iawn ddefnydd o’r cysylltnod.

Penderfynwyd y dylid cael barn Canolwr ar waith 5 ymgeisydd. Barn y canolwr oedd bod gwaith yr ymgeiswyr hynny yn amlygu ‘gallu da’.

**Prif Arholwr (o’r Saesneg i’r Gymraeg)
Mehefin 2008**